CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**29.9.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Caffi'r Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; TAJ; RJ; JOJ; RY;EY;AR<br>**Ymddiheuriadau:** IW;EO;LLMH;DP;GW<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng Jackie Lewis |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd JL mewn materion Cynllunio a DW mewn materion yn ymweud a chyflog y Clerc. |
| **3** | **Cofnodion 28.7.22**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 28 Gorffennaf fel rhai cywir (JAJ/TAJ)<br>b) Materion yn Codi<br>**Parcio heb ganiatad**.<br>Unllais yn awgrymu rhoi rhybudd terfynnol ar sail y cyngor cyfreithiol dderbyniwyd eisoes. Cytunwyd yn unfrydol i anfon llythyr at HJ yn nodi'r cymal tresbasu a rhybudd o 4 wythnos cyn gwaredu'r eiddo. Llythyr at PS hefyd yn terfynu ei gytundeb gyda'r fan werdd - 10 diwrnod o rybudd yn unol â thelerau'r cytundeb. Ei atgoffa eto fod y rhent yn ddyledus hyd at ddiwedd Hydref 2022.<br>Diolchwyd am y gwaith da sydd wedi ei wneud gan swyddog CSYM John Roberts ar glirio nifer o geir drwy'r pentref. Cytunwyd yn unfrydol i anfon ebost o ddiolch ato.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 29.9.22<br>Adroddodd y Clerc ei bod yn derbyn cyngor gan yr Archwiliwr Mewnol yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyfrifydd am weinyddu gyflog y Clerc. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Dymunodd beidio derbyn cyflog y chwarter hwn hyd nes bydd yn derbyn arweiniad ar sut i weithredu'r system gyflogau. Cytunwyd yn unfrydol a chais y Clerc ac fe nodwyd bydd diweddariad yng nghyfarfod mis Hydref. |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**JAJ –** cyfeiriodd at ddwr yn rhedeg ger Siop y Pentref. Cytunodd JL i holi ymhellach gyda CSYM.<br><br>- Cyfeiriodd at ddau amcanbris ar gyfer gwaith trydanol yn y Clwb peldroed. Cytunwyd yn unfrydol i'w talu pan eu gyflwynir i'r Clerc.<br>- Awgrymodd anfon lythyr o gydymdeimlad at Mrs Mary Owens a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr Einion Owens King Head yn ddiweddar. Cyfeirwyd at waith caled Mr Owens pan yn aelod o'r Cyngor Cymeithas. Cytunwyd yn unfrydol – Clerc i weithredu.<br>- Cyfeiriodd at drefniadau Sul y Cofio. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu ar Parch Vaughan Prydderch; Heddlu Gogledd Cymru a Phennaeth yr Ysgol. Cytunodd DAW i drefnu'r uchelseinydd.<br><br>**TAJ –** holodd am y rheiliau ger maes parcio Capel Jeriwsalem Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu ag Iwan Roberts sawl gwaith i ofyn iddo eu tynnu. Clerc i gysylltu eto.<br><br>- Nododd ei bryder parhaus am sefyllfa croesi plant i'r Ysgol ger Tafarn Twrcelyn yn dilyn torri gwasnaeth y Groeswraig gan CSYM. Clerc i ofyn eto am rwystrau ffordd yma drwy ddull y Cynllun Gweithredu Priffyrdd. Hefyd, Clerc i holi Pennaeth yr ysgol i geisio trefnu hyfforddiant i blant yr Ysgol a'r groesi'r ffordd a defnyddio'r groesfan.<br><br>**JOJ –** pryder yn Carmel am garafannau yn cael eu gosod ar gyfer defnydd 'AirBnB'. Cytunodd JL i holi beth yw amodau CSYM ar gyfer gosod a defnydd o'r fath<br><br>**EY -** adroddodd bod grwp 'Party on the Pitch' Maes Athen wedi casglu £1500 at elusen Mind Cymru. Llongyfarchwyd y grwp am eu gwaith canmoladwy iawn. Soniodd hefyd am sefydlu Banc Bwyd gwirfoddol yn y Llan.<br><br>Cytunodd y Clerc i gylchredeg gwybodaeth dderbyniodd yn ddiweddar gan Nikki Jones am brosiect i redeg hwb yn lolfa Tan y Foel fyddai'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos i ddarparu prydau bwyd a chyfle i gymdeithasu. Maen't yn chwilio am wirfoddolwyr.<br><br>**AR –** nododd bod chwyn yn tyfu'n barod drwy rai o lwybrau newydd y fynwent gyhoeddus. Clerc i gysylltu a RPPO Williams |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | - Cyfeiriod at eiddew yn tyfu drwy waliau'r Eglwys. JAJ i ofyn i Richard Owen asesu'r sefyllfa.<br>- Nododd bod y Siop Piano yn y pentref bellach yn wag. Adroddodd y Clerc bod Grwp LlanNi wedi dangos diddordeb a bod swyddog CSYM yn sefydlu'r broses farchnata ar hyn o bryd. Clerc i ddatgan bod gan CC Llan ddiddordeb yn y Siop hefyd.<br>- Cytunodd DAW lanhau'r De-fib yn y Stesion.<br>- Cytunwyd i gyfrifon Ysgol Haearn a Chae Gofeb ddod i gyfarfod mis Ebrill y Cyngor Cymdeithas yn flynyddol, er gwybodaeth.<br>- Cytunodd JL i holi beth yw sefyllfa adeiladu ar safle Ysgol Haearn gyda'r adrannau perthnasol CSYM.<br>**DAW –** cyfeiriodd at aelodaeth y 'Land Army' a phwy o ferched Llan oedd yn perthyn. Cytunwyd y byddai'r dda gosod cofadail iddyn nhw ger y Gofeb. Cytunwyd yn unfrydol a phenderfynwyd i: TAJ lunio cais am wybodaeth trwy'r Arwydd a DAW roi cais ar Lluniau'r Llan.<br>- Mynegodd eto bryder am lwybrau'r hen fynwent. Cytunwyd i GW holi'r Canon Emlyn Williams os oes bwriad i wella a sut fyddai'r ffordd orau i CC Llan gefnogi. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Gorffennaf**<br>Scottish Power – Golau Dolig 94.79<br>Scottish Power – CPD 177.62<br>Wybone – bagiau dal baw ci 122.38<br>Peter Clare – glanhau blynyddol fent popty'r Caffi 345.60<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>HJT Electricals – gwaith ar radell yn y CPD 72.82<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: 14840.73<br>Cyfrif wrth gefn 1435.91 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br><br>- **Cais FPL/2022/236 – Gwel y Mor Carmel -** dim gwrthwynebiad**.**<br>- |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| **7.** | **Materion Safleoedd**<br><br>• **Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** tefniadau mewn llaw ar gyfer Sul y Cofio<br>• **Unedau Tan y Foel –** cytunwyd i CSYM ymgymryd a gwaith profion tir i waredu dwr glaw. |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall**<br>• **Newyddlen Pwyllgor Safonau CSYM**<br>Cyfeiriodd y Clerc at yr uchod a gylchredwyd yn flaenorol dros e-bost. Nodwyd bod seddi gwag ar y Pwyllgor hwn ar gyfer cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned.  Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau  o CC Llan i'w rhoi ymlaen i CSYM cyn y dyddiad cau.  Bydd rhagor o wybodaeth maes o law am ganlyniadau'r enwebu.<br>Nodwyd a derbyniwyd cynnwys y newyddlen yn unfrydol.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.55* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383